# Rheoli’r gwaith o gynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio i’w gwerthu neu eu trosglwyddo

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r gwaith o gynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio i'w gwerthu neu eu trosglwyddo, i gyflawni'r targedau ansawdd a maint a osodwyd.

Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn rheoli'r gwaith o gynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod y gwaith i gyd yn cael ei wneud yn ddiogel yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle
2. trefnu'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith a gynlluniwyd o gynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio i'w gwerthu neu eu trosglwyddo
3. rheoli gweithgareddau cynhyrchu i fodloni gofynion cwsmeriaid ac ansawdd
4. monitro cynhyrchiant gwirioneddol pysgod/cregynbysgod yn erbyn y cynhyrchu a gynlluniwyd i amlygu'r angen i addasu gweithgareddau cynhyrchu
5. rhoi gweithdrefnau ar waith i fonitro a chynnal iechyd a lles pysgod/cregynbysgod
6. rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin â phroblemau sydd yn effeithio ar y cynhyrchu a gynlluniwyd (fel amrywiadau mewn amodau amgylcheddol, camweithrediad cyfarpar, prinder stoc addas ac iechyd gwael pysgod)
7. parhau i gyfathrebu'n effeithiol gyda chwsmeriaid ac eraill sydd yn gysylltiedig â'r broses gynhyrchu
8. cadw cofnodion cynhyrchu pysgod/cregynbysgod i fodloni gofynion cyfreithiol ac archwilio ansawdd yn unol â gweithdrefnau'r safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle o ran iechyd a diogelwch sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio
2. yr adnoddau sydd yn ofynnol i gynorthwyo cynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio yn effeithiol i'w gwerthu neu eu trosglwyddo
3. gweithgareddau cynhyrchu a'u gweithrediad effeithiol
4. y gofynion cyfreithiol perthnasol sydd yn rheoli'r gwaith o gynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio i'w gwerthu neu eu trosglwyddo
5. pam y mae'n bwysig cyflawni'r cynhyrchiant a gynlluniwyd a bodloni gofynion cwsmeriaid ac ansawdd
6. gofynion **Cynllun Iechyd Pysgod (FHP**) y safle yn cynnal safonau iechyd a lles pysgod yn ystod gweithgareddau cynhyrchu
7. gofynion iechyd a lles ar gyfer y pysgod/cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio, a sut mae'r rhain yn cael eu cynnal yn yr unedau cadw sydd ar gael
8. pam y mae'n bwysig monitro cofnodion marwolaethau
9. y dulliau a ddefnyddir i fonitro cynhyrchu gwirioneddol yn erbyn cynhyrchu a gynlluniwyd
10. sut i asesu a chynnal ansawdd cynnyrch a'r ffordd y mae pysgod ac ansawdd y cig yn cael ei asesu a'i sgorio
11. codau ymarfer perthnasol, a'u cymhwyso wrth reoli cynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio
12. ffactorau sydd yn gallu amharu ar gynhyrchu a'r camau y gellir eu cymryd i leihau eu heffaith
13. gwerth cyfathrebu'n effeithiol gyda chwsmeriaid
14. y gofynion cyfreithiol ac ansawdd, a gweithdrefnau'r safle ar gyfer cadw cofnodion cynhyrchu pysgod/cregynbysgod

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn monitro ac yn cynnal y **gweithgareddau cynhyrchu** canlynol:

1. paratoi stoc i'w werthu neu ei drosglwyddo
2. cludiant
3. glanhau a chynnal a chadw cyfleusterau cynhyrchu
4. hylendid a bioddiogelwch

## Geirfa

**cwsmer** – defnyddiwr eich cynnyrch fferm. Gall y defnyddiwr fod yn fewnol (safle fferm arall a weithredir gan eich cyflogwr) neu'n allanol (fferm neu sefydliad heb unrhyw gysylltiad â'ch sefydliad)

**adnoddau** – pobl, cyfarpar, storfa, cludiant

**Cynllun Iechyd Pysgod (FHP**) – cyfeirir ato hefyd fel Cynllun Iechyd Milfeddygol (VHP) a Chynllun Iechyd a Lles Milfeddygol (VHWP)

Rheoli’r gwaith o gynhyrchu pysgod/cregynbysgod wedi eu ffermio i’w gwerthu neu eu trosglwyddo

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; cynhyrchu |